# CYLCHLYTHYR

*Lleihau'r perygl o lifogydd yn Aberaeron gyda'n gilydd*

**Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron**

bam

**Rhif 6: Mai 2025**

## Croeso

Dyma ein chweched cylchlythyr ar gyfer Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron sy'n ceisio rhoi trosolwg o'r gwaith sydd ar ddod.

Os hoffech chi weld ein cylchlythyrau sganiwch:

**Saesneg:** **Cymraeg:**




*Harbwr Aberaeron – Andrew Chittock*

Mae BAM yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ac AtkinsRéalis Design Consultancy i gyflawni Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron.

## Diweddariad cynnydd y prosiect

Gwybodaeth

Rwy'n falch o allu adrodd bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud ar draws sawl maes allweddol o'r prosiect. Rydym eisoes wedi gweld manteision y morglawdd newydd yn ystod stormydd yn gynharach yn y flwyddyn.



Mae pen newydd Pier y De wedi'i ailadeiladu a bron wedi'i gwblhau.


*Lluniau – Andrew Chittock*



Mae marcwyr mordwyo parhaol wedi'u gosod wrth fynedfa'r harbwr.

*Lluniau – Andrew Chittock*

Mae wal gerrig gyfnerthedig, gatiau llifogydd, paneli gwydr a goleuadau newydd i gyd wedi'u gosod ym Mhen Cei.







*Lluniau – Andrew Chittock*

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

bam

AtkinsRéalis

CONSIDERATE CONSTRUCTORS SCHEME

## Diweddariad cynnydd y prosiect

Waliau cerrig, paneli gwydr a wal gynnal gerrig newydd afon Aeron.



*Lluniau – Andrew Chittock*

Mae wal gerrig a phaneli gwydr newydd yr Hive yn eu lle.



*Lluniau – Andrew Chittock*

Mae'r grwynau newydd ar hyd Traeth y De yn eu lle.



*Lluniau – Andrew Chittock*

## Beth ydym ni wedi bod yn ei wneud?

- Adeiladu'r sylfeini ar gyfer y trawst capio yn Toad Hall, afon Aeron.
- Cwblhau'r cladin gwaith maen a'r paneli gwydr o flaen Y Seler, afon Aeron.
- Tynnu'r platfform mynediad yn afon Aeron ac ailosod y creigiau.
- Wal teras Pwll Cam: paneli gwydr a gorffeniad gwaith maen cyn belled ag y gallwn fynd, gyda phob cysylltiad i ddilyn yn y cam nesaf.
- Adeiladu ategweithiau'r gât harbwr mewnol newydd a'r cladin gwaith maen.
- Cwblhau wal newydd yr harbwr a'r paneli gwydr i'r Hive.
- Cwblhau'r cladin gwaith maen a'r paneli gwydr ar hyd wal Pen Cei. Mae ardal y gât sy'n ffinio â'r Hive i'w chwblhau yn y cam nesaf.
- Cwblhau'r gwaith draenio ac adfer ffordd Pen Cei.
- Adeiladu llwybr troed concrit promenâd y cei.
- Cwblhau 3 gât a gosod goleuadau stryd ym Mhen Cei.
- Adeiladu morglawdd y gogledd a'r rhodfa goncrit.
- Cwblhau strwythur concrit pen pier y de.
- Cwblhau grwynau pren newydd traeth y de a'r wal gynnal gerrig.

## Gwaith allweddol sydd ar ddod

### Mai:

- Adeiladu trawst capio newydd ar wal yr afon o flaen Toad Hall.
- Adeiladu waliau newydd y bont bren i gysylltu â wal afon Aeron a wal deras Pwll Cam.
- Adeiladu grisiau i ardal teras Pwll Cam.
- Parhau i adeiladu ategweithiau'r gât harbwr mewnol newydd ac adeilad y ciosg.
- Gosod waliau a gât Pen Cei yn yr ardal sy'n ffinio â'r Hive.
- Adeiladu llwybr troed concrit promenâd Pen Cei.
- Parhau i adeiladu rhodfa goncrit morglawdd y gogledd a gosod creigiau.
- Gosod cladin gwaith maen ar ben newydd pier y de.
- Ar draeth y de: dechrau symud y llwybrau cludo a lefelu ailgyflenwadau'r traeth.

### Mehefin:

- Gosod paneli gwydr ar wal yr afon o flaen Toad Hall.
- Adeiladu waliau a strwythur gât newydd y bont bren.
- Adeiladu grisiau a wal gynnal ramp i ardal teras Pwll Cam.
- Gosod gât harbwr newydd Pwll Cam.
- Gorffeniadau terfynol a chlirio gwaith ym Mhen Cei.
- Cwblhau rhodfa goncrit morglawdd y gogledd a gosod creigiau.
- Gosod y grwyn cerrig newydd ar bier y de.

### Gorffennaf:

- Cwblhau gorffeniadau gwaith maen i Toad Hall, tirlunio a chlirio'r safle.
- Gosod a chomisiynu gât harbwr Pwll Cam.
- Adeiladu'r waliau a'r to ar gyfer adeilad y ciosg newydd.
- Gosod cyflenwad pŵer trwy deras Pwll Cam i'r ciosg.
- Parhau gyda chladin gwaith maen ar y waliau o amgylch y gweithfeydd gât.
- Gwaith gosod sylfeini a thirlunio caled i ardal teras Pwll Cam.
- Tynnu seilbyst gwaith dros dro wrth fynedfa'r harbwr mewnol.
- Tynnu'r platfformau dros dro o fewn yr harbwr mewnol.
- Cwblhau gosod y grwyn cerrig newydd i bier y de a symud y mynediad i'r llwybr cludo.

## Rheoli traffig a cherddwyr

Rydym yn gwneud pob ymdrech i gadw ein heffaith i'r lleiaf posib ar drigolion ac ymwelwyr ag Aberaeron wrth i ni weithio ar yr amddiffynfeydd rhag llifogydd. Fodd bynnag, mae angen rheoli traffig a cherddwyr er mwyn i ni gael mannau gwaith diogel ac amddiffyn y cyhoedd. Mae'r ardaloedd isod sydd wedi'u cau dros dro yn parhau mewn grym.

» Gwyriad llwybr yr arfordir trwy Aberaeron.
» Mynediad i Draeth y De.
» Y bont droed bren i gerddwyr ar draws afon Aeron.
» Cau ffordd Pen Cei yn dod i ben 30 Mai 2025.

## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae BAM wedi ymrwymo i gefnogi'r gymuned leol ac wedi noddi llawer o ddigwyddiadau lleol a chlybiau chwaraeon yn Aberaeron.

### Elusen Tiwmor yr Ymennydd

Mae gweithiwr penderfynol BAM Construction wedi mynd y filltir ychwanegol i gefnogi achos sy'n agos at ei galon trwy godi arian ar gyfer Elusen Tiwmor yr Ymennydd a rhedeg Hanner Marathon Cynhesu'r Gaeaf Caerdydd. Roedd Caleb Lewis-Price, 26 oed, wedi wynebu'r her 13.1 milltir mewn fest BAM ddydd Sadwrn Chwefror 11 2025 i godi arian hanfodol ar gyfer yr elusen sy'n ceisio helpu'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan diwmorau'r ymennydd ac ariannu ymchwil arloesol.




### BAM yn Helpu i Ddadflocio Draeniau

Cysylltodd busnes lleol â BAM yn gofyn am help i glirio ei ddraeniau oedd wedi'u blocio ac yn cael effaith negyddol ar ei allu i redeg y busnes. Deth BAM i'r adwy yn syth a dadflocio'r draeniau. Daeth lori chwistrell olchi i mewn i fflysio'r pibellau a dadflocio'r system, a defnyddiodd y peirianwyr gamera arolygu i sicrhau bod y system wedi'i chlirio.

### BAM yn Rhoi Deunyddiau Dros Ben

Mae BAM wedi dangos ymrwymiad cryf i gefnogi cymunedau lleol trwy roi rhodd hael o ddeunyddiau dros ben i Sied Dynion Aberaeron, menter sy'n helpu unigolion i gadw cysylltiad â'i gilydd a chyfrannu at brosiectau da. Mae'r rhodd hon nid yn unig yn helpu i leihau gwastraff ond mae hefyd yn darparu adnoddau gwerthfawr i Sied Dynion eu hailddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o brosiectau cymunedol.

### Bwyty Lleol yn Cael Help Llaw gan BAM

Fel arwydd o ewyllys da, gosododd BAM ramp i'r anabl ar gyfer bwyty lleol. Mae hyn yn rhan o ymdrechion parhaus BAM i hyrwyddo cynhwysiant a chefnogi busnesau lleol a effeithir gan y gwaith parhaus ar amddiffyn yr arfordir.

### Ysgol Gynradd Aberaeron

Yn ddiweddar roedd BAM wedi cwblhau'r gwaith o gael gwared ar yr hen offer chwarae o iard chwarae Ysgol Gynradd Aberaeron, gan sicrhau diogelwch a llesiant y plant sydd heb gael cyfle i ddefnyddio'r ardal hon o'r iard.

### Seremoni Wobrwyo Genedlaethol Adeiladwyr Ystyriol

Mae Prosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron wedi cael ei gydnabod am ei berfformiad rhagorol gan Adeiladwyr Ystyriol. Roedd aelodau'r tîm yn bresennol yn y seremoni wobrwyo i dderbyn y dystysgrif sy'n cydnabod ymdrechion y tîm.



*Y Cynghorydd Shelly Childs – Cyngor Sir Ceredigion, Abby Davies – Syrfëwr Meintiau BAM, Gwen Clements – Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd BAM, Andrew Pointon-Bell – Rheolwr Prosiect BAM, Alan Haird – Rheolwr Prosiect, Cyngor Sir Ceredigion.*



## Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned

### Llysgenhadon STEM BAM yn Ysbrydoli Peirianwyr y Dyfodol

Mae Llysgenhadon STEM BAM wedi parhau i gwrdd â myfyrwyr lleol i roi cipolwg gwerthfawr ar gyfleoedd gyrfa ym maes peirianneg sifil.

Ers ein cylchlythyr diwethaf ym mis Chwefror rydym wedi ymgysylltu â'r canlynol:

- Ysgol Henry Richard.
- Coleg Gwaith Coed Aberteifi.
- Ysgol Uwchradd Penglais.
- Ysgol Gynradd Llanon.



Myfyrwyr gwaith coed Coleg Aberteifi yn ymweld â chynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron i weld y prosiect sy'n cael ei gyflawni gan BAM.




Cyflwyniad yn Ysgol Henry Richard Tregaron ar gyfleoedd a llwybrau prentisiaeth gwahanol i'r diwydiant adeiladu.

Mae BAM wedi cymryd camau mawr i bontio'r bwlch rhwng addysg a'r gweithlu trwy gynnig cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr i fyfyrwyr lleol. Mae'r fenter hon yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio dyfodol y diwydiant peirianneg sifil, gan roi cipolwg i fyfyrwyr ar y byd go iawn a chyfle i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o fyd peirianneg.



*Harry Best – Myfyriwr Blwyddyn 12*



*Morgan Bayliss – Addysg gartref*



*Owain Watson – Coleg Aberteifi*

# Buddion ac Ymgysylltu â'r Gymuned



I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod roedd Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd BAM wedi cwrdd â'r grŵp 'WI Ceredigion' i roi cyflwyniad ar brosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron. Roedd aelodau'r grŵp yn awyddus i ddysgu am y cynnydd a waned ers ei ymweliad y llynedd.



BAM yn Talu Teyrnged yn Seremoni Gofio 80 Mlynedd ers Diwrnod VE Aberaeron.

## Cipolwg o'r adborth a gafwyd gan y gymuned leol

*"Gair o ddiolch am ddod i'r Ffair Yrfaoedd yn Ysgol Bro Teifi wythnos diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich parodrwydd i ddod ac yn teimlo bod ein disgyblion wedi elwa'n fawr. Mae llawer o rieni wedi canmol y digwyddiad hefyd."*

Ysgol Bro Teifi

*"Ar ran myfyrwyr a staff Gwaith Coed a Thoi Sylfaen Lefel 2 Coleg Ceredigion, hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i chi a thîm BAM am y croeso a gawsom yn ystod ein hymweliad safle â phrosiect Amddiffyn Arfordir Aberaeron. Roedd yn gyfle anhygoel i'n myfyrwyr gael cipolwg go iawn ar adeiladu ar raddfa fawr, arferion iechyd a diogelwch, a'r rôl hanfodol y mae crefftau gwahanol yn ei chwarae mewn prosiect mor bwysig."*

Coleg Aberteifi

*"Roeddwn i wedi mwynhau fy mhrofiad gwaith gyda BAM yn fawr iawn ac roedd e'n ddiddorol dros ben."*

Profiad Gwaith

*"Ar ran Ysgol Penglais a Gyrfa Cymru, hoffwn i ddiolch yn fawr iawn i chi gyd am yr holl amser a chefnogaeth a roesoch i ddisgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Penglais wrth iddyn nhw weithio ar eu hareithiau. Roedd yr areithiau terfynol yn anhygoel, ac roedd y disgyblion wedi defnyddio llawer o wybodaeth, ffeithiau a manylion o'ch cyflwyniadau yn eu gwaith. Roedd yr Adran Saesneg a'r Pennaeth wedi'u plesio'n fawr â'r hyn roedd y disgyblion wedi'i ddysgu a'i gyflwyno ar y diwrnod yn eu hareithiau perswadiol. Fel beirniaid, roedd hi'n anodd iawn dewis 2 enillydd oherwydd roedd pawb a gyrhaeddodd y rownd derfynol yn wych, roedden nhw'n angerddol am lifogydd yn Aberystwyth, dangoson nhw wybodaeth ragorol ac roedd ganddyn nhw sgiliau cyflwyno arbennig o dda. Roedd y rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol wrth eu bodd gyda'r holl roddion a bagiau danteithion a roesoch chi iddyn nhw."*

Ysgol Penglais / Gyrfa Cymru

## Oriel Adeiladu



Mynedfa Pwll Cam – Waliau dur concrit cyfnerthedig i osod y gatiau llifogydd



* Traeth y De – Wal gynnal gerrig newydd



* Traeth y De – Ffordd dros dro i gludo'r creigiau i'r morglawdd



* Pwll Cam – Gollyngfa draenio dŵr llifogydd newydd



Pen Cei – Ffos gyda gosodiadau dur cyfnerthedig



Y Seler – Wal a phaneli gwydr newydd



Afon Aeron – Wal a phaneli gwydr newydd



Pen Cei – Gosod gât llifogydd

** Lluniau gan Andrew Chittock*

# EIN TÎM

**Rheolwr Contractau**
Ray Jones

**Rheolwr Prosiect**
Andrew Pointon-Bell

**Syrfëwr Meintiau**
Abby Davies

**Rheolwr Gwaith**
Keith Hughes

**Fforman Cyffredinol**
Damion Hopkins

**Asiant Safle**
Emyr Thomas

**Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd**
Gwen Clements

**Cynghorydd Amgylcheddol**
John Clancy

# EIN PARTNERIAID

**Cyngor Sir Ceredigion:**

**Rheolwr Prosiect**
Alan Haird

**AtkinsRéalis Design Consultancy:**

**Rheolwr Prosiect**
Steffan Davies

**Rheolwr Dylunio**
Matthew Tierney

## BAM ydym ni

Rydym yn dychmygu, yn creu ac yn cyfoethogi adeiladau a seilwaith ar draws y DU ac Iwerddon. Ers dros 150 o flynyddoedd, rydym wedi ymrwymo i wella bywydau trwy greu amgylcheddau a chymunedau cynaliadwy lle y gall pobl fyw, gweithio a ffynnu.

Ein gweledigaeth yw adeiladu dyfodol cynaliadwy. Dyna pam rydyn ni'n meddwl y tu hwnt i'r adeiladu ac yn canolbwyntio ar yr effaith fwy. Dyma sut rydym yn gwneud yr adeiladau a'r seilwaith eiconig sy'n llunio ein cymdeithas.

Yn ein hymgais diflino i wella, rydym yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i ddatgloi'r hyn sy'n bosibl, gyda'n gilydd. Mae hyn oherwydd ein bod yn credu mewn gweithredu, nid geiriau.

A dyna pam rydym ar genhadaeth i'w gwneud yn bosibl.

## Amgylchedd a chymuned

Trwy fabwysiadu agwedd gyfrifol a rhagweithiol at faterion amgylcheddol, mae BAM wedi ymrwymo i leihau effeithiau niweidiol posibl ei weithgareddau busnes ar yr amgylchedd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy trwy gydbwyso ei amcanion busnes ac ystyriaethau amgylcheddol. Bydd BAM yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill y mae'n ymrwymo iddynt, lle bo hynny'n bosibl, mewn perthynas â'i agweddau amgylcheddol a chynnwys cymunedau yn y prosiect.

## Adeiladwyr Ystyriol

Mae pob safle BAM yn cofrestru gyda'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i fod yn lân, yn barchus, yn ddiogel, yn ymwybodol o'r amgylchedd, yn gyfrifol ac yn atebol. Mae ein safle yn cael ei archwilio'n annibynnol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau hyn.

Rydym yn ceisio gweithio mewn ffordd sy'n achosi cyn lleied o anghyfleustra â phosibl i'n cymdogion. Ymddiheurwn am unrhyw niwsans a allai gael ei achosi yn ystod y gwaith na ellir ei osgoi.

## Cysylltu â Ni

Ein bwriad yw cwblhau'r gwaith hwn heb fawr o amharu. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'n Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd sydd ar gael i helpu.

**Gwen Clements:**

**07585 633799** **Aberaeron.plo@bam.com**

Gallwch gofrestru ar gyfer diweddariadau ebost trwy ebostio aberaeron.plo@bam.com a chadarnhau yr hoffech dderbyn diweddariadau a chopi o gylchlythyrau yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am BAM:

Sganiwch yma

